**Y Gwir Anrh/ Rt Hon Vaughan Gething AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
delyth.jewell@senedd.cymru

2 Gorffennaf 2024

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 13 Mehefin 2024 ynghylch Datganiad Roazhon (Rennes).

Llofnodwyd Datganiad Roazhon y llynedd yn y Fforwm Celtaidd cyntaf. Nid yw'r Datganiad yn gytundeb ffurfiol yn yr un ystyr ag y mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a Datganiadau a Rennir yr ydym wedi'u llofnodi â gwledydd a rhanbarthau eraill. Yn hytrach, mae'n rhan o'r traddodiad o ddod â digwyddiad ffurfiol i ben - yn yr achos hwn y Fforwm Celtaidd - gyda datganiad. Cafodd y Datganiad ei lywio gan Lywydd Llydaw yn rhinwedd ei swydd fel yr un oedd yn cynnal y Fforwm, a chafodd ei ddatblygu, a'i gwblhau, yn ystod y Fforwm.

Gan mai cytundeb anffurfiol i edrych ar weithio'n agosach gyda'n gilydd ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr yw'r Datganiad, nid yw'n cynnwys cynllun gweithredu ffurfiol nac ymrwymiad i gyflawni unrhyw weithgaredd penodol. Yn hytrach, mae'n cyfleu bwriad i gydweithredu mwy ac i gryfhau cysylltiadau rhanbarthol.

Gan mai Datganiad i gydweithio yw hwn, yn hytrach na chytundeb mwy ffurfiol sy'n cael ei lywio gan allbwn, nid oes meysydd blaenoriaeth penodol, ond yn hytrach cytundeb ar feysydd posibl ar gyfer cydweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau morol; addysg a hyfforddiant; gwella symudedd; hyrwyddo a chyd-wybodaeth am dreftadaeth; ynni adnewyddadwy; cysylltiadau diwylliannol; ieithoedd; cysylltiadau economaidd mewn arloesi ac ymchwil; a phobl ar wasgar.

Yn dilyn y Fforwm Celtaidd, ymrwymodd pob partner i ddatblygu rhywfaint o'r gwaith hwn. Cymru sy'n gyfrifol am yr elfen cysylltiadau diwylliannol, yn bennaf drwy'r Llwybr Celtaidd; llwybr treftadaeth arfaethedig yn seiliedig ar hanes cyffredin ein Seintiau Celtaidd. Rydym wedi ffurfio rhwydwaith a grŵp arbenigol i archwilio cyfleoedd mewn treftadaeth, diwylliant a thwristiaeth drawsffiniol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi crynodebau o'r cytundebau dwyochrog rhyngwladol trawsbynciol ar wefan Llywodraeth Cymru. Oherwydd camgymeriad ni chyhoeddwyd crynodeb o'r Cytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol ag Alabama, ond cywirwyd hyn yn syth ar ôl derbyn eich llythyr.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng llywodraethau Kerala a Chymru yn canolbwyntio'n llwyr ar Iechyd, yn cael ei ddarparu gan yr adran Iechyd, ac nid yw'n bodloni'r meini prawf o fod yn gytundeb dwyochrog trawsbynciol; felly, ni fydd crynodeb yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau Cysylltiadau Rhyngwladol gwefan Llywodraeth Cymru. Mae'r dudalen we wedi'i diweddaru i adlewyrchu ac egluro mai'r cytundebau dwyochrog ar y dudalen hon yw'r rhai sy'n cael eu darparu ar draws y llywodraeth, wedi'u cydlynu gan fy nhîm Cysylltiadau Rhyngwladol, yn hytrach na chytundebau polisi unigol.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**VAUGHAN GETHING**